DATHLIAD 10 MLYNEDD

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES
# NURSE OF THE YEAR
AWARDS

RHAGLEN
# GWOBRAU

29 MEHEFIN 2023

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

RCNWales @RCNWales rcn_wales

# EIN NODDWYR

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Prifysgol Bangor University

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bradbys Wealth Management

BMA Cymru Wales

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Fieldbay – Part of the Ivalve Group

frontier medical group

GIG Cymru NHS Wales | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Sponsored by LV= Liverpool Victoria – Car • Home • Travel • Pet – LV.com/RCN

NS Student

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

RCNi plus

Royal College of Nursing in Wales Nurse of the Year Alumni Network

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

tŷ hafan – the hospice for children in Wales – yr hosbis i blant yng Nghymru

University of South Wales Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Velindre University NHS Trust

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Welsh Ambulance Services NHS Trust

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG Cymru NHS Wales | Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC)

---

Royal College of Nursing in Wales Nurse of the Year Awards

10 Year Anniversary

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Royal College of Nursing Wales

Cleartech live Creative Events

seer design

# DIOLCH GAN RCN CYMRU

Heb ein noddwyr ni fyddai'r digwyddiad dathlu dengmlwyddiant mawreddog hwn wedi bod yn bosibl, a hoffai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ddiolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am ein helpu i ddathlu'r goreuon ym maes nyrsio yng Nghymru.
Trwy lwyddiant y Gwobrau hyn, lansiodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Rwydwaith Cyn-enwebeion Nyrs y Flwyddyn Cymru yn swyddogol yn 2017. Mae Rhwydwaith y Cyn-enwebeion yn cynnig llwybr clir o gyfleoedd datblygu personol ac o ran gyrfa ac amlygiad i'r rheini sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y gwobrau. Mae'n creu grŵp ymgysylltiedig iawn o arweinwyr arloesol sy'n hyrwyddo nyrsio yng Nghymru ac yn allanol, yn y DU ac yn rhyngwladol. Am ragor o wybodaeth e-bostiwch RCNWalesAlumni@rcn.org.uk

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn noddwr Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2024, cysylltwch â ni drwy e-bost yn nurseoftheyearawards@rcn.org.uk

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES
NURSE OF THE YEAR
AWARDS

DATHLIAD 10 MLYNEDD

# CYNNWYS


**Rhagair** 4
**Meistr y Ddefod / Adloniant** 5
**Gwobr Cyflawniad Oes 2023** 6
**Noddwyr ein Gwobrau** 7-12
**Cyfarfod Enwebeion y Gwobrau**
- Gwobr Plant a Bydwreigiaeth 13
- Gwobr Nyrsio Cymunedol 14
- Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth 15
- Gwobr Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl 16
- Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol 17
- Gwobr Nyrsio Gofal Lliniarol Pediatrig Suzanne Goodall 18
- Gwobr Nyrsio Uwch ac Arbenigol 19
- Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd 20
- Gwobr Cefnogi Addysg a Dysgu mewn Ymarfer 21
- Gwobr Addysg Nyrsio 22
- Gwobr Myfyriwr Nyrsio 23
- Gwobr Nyrs Gofrestredig (Oedolion) 24
- Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru 25
- Gwobr Arloesedd a Digideiddio ym maes Nyrsio 26
- Gwobr Cefnogi Gwelliant drwy Ymchwil 27
- Gwobr Gofal am Unigolion Hŷn 28

**Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru 2023** 29
**Cefnogi Ysgoloriaethau Nyrsio Cymru** 30
**Llongyfarchiadau** 32-33

# RHAGAIR



Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

**JACKIE DAVIES**
Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru

**Mae Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru yma o'r diwedd.**

Rwy'n falch iawn i fod yn ysgrifennu mai hwn yw ein degfed digwyddiad dathlu nyrsys a nyrsio yng Nghymru, a chanmol holl waith caled, arloesedd ac ymroddiad nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ein hymgyrch #TâlTegamNyrsio. Rydw i wedi fy syfrdanu gan ymrwymiad diwyro ein haelodau sydd – am y tro cyntaf yn hanes 106 mlynedd yr RCN – wedi pleidleisio i weithredu'n ddiwydiannol yn y frwydr dros gyflog teg a gofal diogel i gleifion. Streic yw'r dewis olaf bob amser, ond mae staff nyrsio yng Nghymru wedi dangos pa mor benderfynol ydynt i sicrhau dyfodol gwell i'r proffesiwn yng Nghymru.

Er bod yr ymgyrch gyflog yn sicr wedi cael sylw amlwg yn RCN Cymru, rydym wedi parhau i weithio ar brosiectau rhyfeddol. Y mis hwn fe wnaethom lansio adroddiad a ffilm fer yn dathlu nyrsys cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal ac sy'n cynnig atebion i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella'r cymorth a datblygiad ar gyfer y rôl hollbwysig hon.

Mae cyn-enwebeion Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru wedi bod yn mynd o nerth i nerth hefyd, gyda llawer o'n "graddedigion" o'r 10 mlynedd diwethaf wedi derbyn clod mawr am y gwaith pwysig y maent yn ei wneud i'r proffesiwn nyrsio.

Mae gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru yn rhoi llwyfan anhygoel i enwebeion ac enillwyr, gan eu galluogi i agor drysau newydd a chyffrous a pharhau i gael effaith ar fyd nyrsio am flynyddoedd i ddod. Rwy'n falch iawn y gallwn, drwy'r gwobrau hyn, arddangos y staff nyrsio sydd, hyd yn oed yn ystod yr amseroedd mwyaf heriol, wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl ac wedi dangos pa mor ymroddedig ydynt i'w cleifion ac i'w gwaith yn gwella gofal iechyd yng Nghymru.

Felly, diolch – a llongyfarchiadau – i bawb sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol! Mae'r gwobrau hyn i chi ac oherwydd chi. Rydych chi'n haeddu cael eich cydnabod a'ch dathlu.

Hoffwn hefyd fynegi fy niolch diffuant i'n holl noddwyr gwobrau am eu haelioni a'u cefnogaeth barhaus.

**Mwynhewch eich noson!**

Pencadlys RCN Cymru:
Tŷ Maeth, King George V Drive East, Caerdydd CF14 4XZ

Swyddfa Gogledd Cymru RCN:
Canolfan Fusnes Plas Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8BF

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in wellbeing Silver

DATHLIAD 10 MLYNEDD

# Meistr y Ddefod / Adloniant



**JASON MOHAMMAD**

Mae Jason Mohammad, cyflwynydd teledu a radio'r BBC, yn un o'r cyflwynwyr y mae galw mwyaf am ei wasanaeth ym myd digwyddiadau. Yn fwyaf adnabyddus am ei rôl ar FINAL SCORE lle ceir sgoriau pêl-droed byw cyflym ar BBC One a'r brif raglen bêl-droed MATCH OF THE DAY a MOTD2, mae proffesiynoldeb, cynhesrwydd a hiwmor Jason yn ei wneud yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd byw.

Mae Jason hefyd yn aelod balch iawn o deulu BBC Radio 2 yn ymuno â Zoe Ball, Claudia Winkleman a Dermot O'Leary fel un o'u lleisiau adnabyddus.

Mae Jason yn cyflwyno Good Morning Sunday ar BBC Radio 2 rhwng 6am a 9am bob penwythnos ac yn cynnal y cwis chwaraeon newydd sbon Pencampwyr ar S4C. Mae Jason hefyd newydd gwblhau cyfres deledu newydd wych ar stadia gorau'r byd, eto i S4C

Mae'r cyflwynydd a aned yng Nghaerdydd hefyd wedi arwain rhai o gynnyrch teledu mwyaf y BBC gan gynnwys y Gemau Olympaidd, Gemau'r Gymanwlad, rowndiau terfynol Cwpan FA Lloegr, rowndiau terfynol Cwpan y Byd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Mae wedi gwneud ffilmiau ar gyfer The One Show ac wedi cyd-gyflwyno Crimewatch ar BBC One gyda Sophie Raworth a Kirsty Young.

Mae Jason yn gweithio rhwng Llundain, Salford a Chaerdydd ac yn siaradwr Cymraeg rhugl - yn ymddangos yn gyson ar S4C a BBC Radio Cymru. Mae ganddo hyd yn oed amser ar gyfer ei sioe ei hun ar BBC Radio Wales - lle mae'n arwain rhaglen derbyn galwadau yn Saesneg.

Mae Jason wedi teithio'r byd gyda'r BBC yn arwain darllediadau teledu o Frasil i'r Unol Daleithiau i Awstralia ac mae'r un mor gartrefol yn cyfweld â Sêr Hollywood a sêr y byd cerddoriaeth ag ydyw yn sgwrsio ag enwau pêl-droed mwyaf y byd.

Mae Jason yn gydberchennog ar gwmni cynhyrchu teledu ac yn ddiweddar mae wedi creu ei academi cyfryngau ei hun. Mae hefyd yn wneuthurwr ffilmiau brwd ar ôl gwneud rhaglenni dogfen teledu am ei ffydd ym Mecca, ei fagwraeth yng Nghymru a phensaernïaeth hanesyddol yn yr Aifft.

O ystyried ei allu unigryw i gadeirio, cyflwyno a rhyngweithio, mae rhai o frandiau mwyaf y byd wedi defnyddio gwasanaeth Jason ar gyfer gwobrau a digwyddiadau gan gynnwys HP, UEFA, Mercedes a Maserati.

## Adloniant

ROYAL WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

Perfformwyr heno yw'r pianydd Jazz Nils Kavanagh a'r lleisydd Sylvie Noble, o gwrs BMus (Anrh) Jazz Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

O briodasau i gynadleddau, o gyngherddau i ddigwyddiadau â thema, gall ein perfformwyr dawnus helpu i drawsnewid eich achlysur. Fel un o ddim ond naw conservatoire cerddoriaeth arbenigol yn y DU, mae ein cerddorion ymhlith y talentau newydd gorau yn y wlad. Mae pob un yn paratoi ar gyfer gyrfa fel perfformiwr proffesiynol, felly nid yn unig y byddwch yn cyflogi'r unigolion ifanc gorau a mwyaf brwdfrydig ar gyfer eich achlysur arbennig, ond hefyd maent yn llawn ymroddiad ac angerdd am eu proffesiwn. Gall ein staff profiadol roi cyngor ar ba berfformwyr a allai fod yn addas ar gyfer eich digwyddiad, a byddwn yn gwneud ein gorau i deilwra'r gerddoriaeth i weddu i'r achlysur. Dewisir pob perfformiwr ar gyfer ymrwymiadau allanol yn dilyn clyweliad.

I gael rhagor o wybodaeth am ein perfformwyr presennol ewch i: www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/hire-us/hire-performer neu cysylltwch â ni drwy e-bostio musicians@rwcmd.ac.uk neu drwy ffonio 029 2039 1402.

@RWCMD | @ColegCerddDrama | @YoungRWCMD

NODDIR ADLONIANT HENO GAN
**BRADBYS WEALTH MANAGEMENT**

BRADBYS WEALTH MANAGEMENT

# Gwobr Cyflawniad Oes 2023

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Mae'r wobr hon yn cydnabod Nyrs Gofrestredig eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniad gydol oes i ymarfer nyrsio, gan arwain at etifeddiaeth o ganlyniadau sy'n well ac yn gynaliadwy i unigolion, cymunedau, a'r boblogaeth ehangach.

Bydd enwebeion y wobr hon hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad nyrsio fel proffesiwn a werthfawrogir gan gymdeithas.

**Meini prawf ar gyfer y Wobr:**
Bydd yr enwebai llwyddiannus wedi gwneud cyfraniad oes parhaus i ddatblygiad sylweddol nyrsio ar lefel genedlaethol a/neu ryngwladol. Cydnabyddir y nyrs fuddugol fel:

- Rhywun sy'n gallu dangos hanes da o arweinyddiaeth flaengar, a bydd wedi ysbrydoli ymarfer nyrsio uwch
- Rhywun sy'n arbenigwr yn ei faes ac wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd gofal.

**Cyhoeddir Gwobr Cyflawniad Oes 2023 yn y seremoni wobrwyo**

Yr enwebeion ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr 2023 yw:



**YR ATHRO JUDITH CARRIER**
Athro Nyrsio, Cyd-Ddirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd



**JUDITH HILL**
Pennaeth Gofal Integredig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**CLAIRE HURLIN**
Pennaeth Strategol Rheoli Cyflyrau Cymunedol a Chronig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**JILL PATERSON**
Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**DR NICOLA WEST**
Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Gofal y Fron, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**LOUISE WILLIAMS**
Cynghorydd Nyrsio ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## ENILLWYR GWOBRAU CYFLAWNIAD OES BLAENOROL

**2013** **Helen Bennett** Nyrs Bwrdd Clinigol, Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**2014** **Daphne Meredith-Smith** Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
**2015** **Brenda Scourfield** Nyrs Iechyd Ysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
**2016** **Karen Logan OBE** Nyrs Ymgynghorol - Ymataliaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
**2017** **Tanya Strange MBE** Nyrs Ranbarthol, Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
**2018** **Yr Athro Ruth Northway OBE FRCN** Athro Nyrsio Anableddau Dysgu, Prifysgol De Cymru
**2019** **Angela Haley** Uwch Nyrs, Gwasanaethau Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
**2021** **Caroline Whittaker RRC OStJ** Arweinydd Ansawdd RRC OStJ, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## GWOBR CYFLAWNIAD OES

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw mewn tair Bwrdeistref Sirol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc arbenigol ar gyfer De Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi bron i 12,000 o staff, ein gweithlu yw enaid nid yn unig y Bwrdd Iechyd ond hefyd nifer o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn ystyried ein rôl fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal yn ddifrifol, ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn ein gwaith partneriaeth eang, ein hymroddiad i'n cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol a'r pwysigrwydd a roddwn ar adeiladu cydberthynas gyda'n staff a'n cymuned.

Yng Nghwm Taf Morgannwg credwn mewn arloesi i wneud gwelliannau i ofal clinigol. Rydym yn arbennig o falch o'n Canolfan Academaidd ym Merthyr Tudful, sy'n helpu i hyfforddi meddygon y dyfodol ym maes meddygaeth gymunedol.

## GWOBR PLANT A BYDWREIGIAETH

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIP BC) yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb gwerth £1.87 biliwn a gweithlu o dros 19,000 mewn nifer. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i dros 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae BIP BC yn gweithredu tri ysbyty cyffredinol dosbarth, 18 ysbyty aciwt a chymunedol arall a dros 90 o ganolfannau iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith meddygfeydd teulu, a gwasanaethau'r GIG gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

## GWOBR NYRSIO CYMUNEDOL

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau i boblogaeth o tua 384,000 yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, cyfleusterau gofal iechyd cymunedol ac yng nghartrefi'r cleifion eu hunain.

Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig yn cyfrif am tua 32% o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent yn chwarae rhan annatod mewn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiad gofal iechyd cleifion ar bob lefel - o'r effaith y maent yn ei chael ar bolisi cenedlaethol ac addysg, i'r gofal y maent yn ei ddarparu wrth erchwyn y gwely ac, yn gynyddol, yng nghartrefi'r cleifion.

## GWOBR GWELLA IECHYD UNIGOLION A'R BOBLOGAETH

NODDIR GAN **IECHYD CYHOEDDUS CYMRU**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw asiantaeth iechyd y cyhoedd genedlaethol Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yno i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach drwy gydweithio er mwyn cael Cymru iachach.

Ein blaenoriaethau strategol yw:

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Hybu lles meddyliol a chymdeithasol
- Hybu ymddygiad iach
- Cefnogi datblygiad system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol er mwyn cynyddu iechyd y boblogaeth a thegwch iechyd
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

## GWOBR ANABLEDDAU DYSGU AC IECHYD MEDDWL

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) yn cwmpasu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n gwasanaethu poblogaeth a amcangyfrifir sydd dros 639,000 mewn nifer, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu modelau gofal newydd ac effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ymateb i anghenion newidiol pobl leol. Ei gynllun uchelgeisiol yw darparu mwy o ofal yn agosach i gartrefi pobl, creu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth mater o drefn a chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol mewn un lle yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, a agorodd ym mis Tachwedd 2020.

Mae BIP AB wedi ennill enw da am fod yn sefydliad arloesol gyda gwerthoedd cryf o gefnogi a datblygu staff. Mae nyrsys a bydwragedd ar bob lefel yn cael eu hannog yn gadarnhaol a'u cefnogi i arddangos syniadau, gwasanaethau, technolegau a pholisïau da sy'n cefnogi arfer ac yn gwella gofal cleifion.

## GWOBR NYRSIO GOFAL SYLFAENOL

NODDIR GAN **BMA CYMRU WALES**

BMA Cymru Wales yw cangen Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA), sy'n gweithio i gynrychioli a thrafod ar ran yr holl feddygon ledled Cymru. Fel undeb llafur, mae'r BMA yn llais blaenllaw, yn hyrwyddo gofal iechyd rhagorol a phoblogaeth iach. Mae'r BMA yn sefydliad democrataidd ac yn un a arweinir gan aelodau, sy'n darparu gwasanaethau a chefnogaeth unigol ragorol drwy gydol oes ei aelodau.

Mae'r BMA wedi ymrwymo i GIG sy'n parhau'n driw i'w egwyddorion sefydlu – bod yn gynhwysfawr, am ddim yn y man gofal a gyda mynediad cyfartal i bawb.

## GWOBR NYRSIO GOFAL LLINIAROL PEDIATRIG SUZANNE GOODALL

NODDIR GAN **HOSBIS PLANT TŶ HAFAN**

Ar ôl ymddeol fel therapydd galwedigaethol, treuliodd Suzanne Goodall, sylfaenydd Tŷ Hafan, yr 11 mlynedd nesaf yn gwireddu ei gweledigaeth i sefydlu hosbis plant i Gymru.

Credai Suzanne, un o drigolion pentref Beddau, y dylai'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd fod yn gyfannol, yn canolbwyntio ar y teulu ac ar gael, am ddim, ar adeg ac mewn lle y mae eu hangen fwyaf.

Mae'n deyrnged barhaol i Suzanne bod ei hathroniaeth yn parhau i fod yn sail i'r gofal a'r cymorth pwrpasol a ddarperir i bob plentyn a'i deulu y gofelir amdanynt gan Dŷ Hafan fel bod pob bywyd, waeth pa mor fyr, yn cael ei fyw i'r eithaf.

Heddiw mae Tŷ Hafan yn cefnogi plant a theuluoedd nid yn unig yn ei hosbis yn Sili, ond hefyd mewn ysbytai, cartrefi a chymunedau ledled Cymru. Mae gweledigaeth Suzanne yn parhau i ysbrydoli nyrsys ledled y wlad i ddarparu gofal a chymorth tosturiol sy'n galluogi bywydau llawn a phrysur i blant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd, ac sy'n creu atgofion parhaol i'w teuluoedd.

# Ein Noddwyr

## GWOBR NYRSIO UWCH AC ARBENIGOL

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG sy'n cyflogi 17,000 o staff, y mae 43% ohonynt ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.

Gan wasanaethu poblogaeth leol o 500,000, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles, o ofal sylfaenol a chymunedol i wasanaethau acíwt ac arbenigol iawn. Mae Caerdydd a'r Fro hefyd yn ddarparwr gwasanaethau trydyddol ar gyfer y boblogaeth ehangach ledled Cymru gan gefnogi gwasanaethau cymhleth fel niwrowyddorau, gwasanaethau cardiaidd, neffroleg a thrawsblaniadau, Gwasanaeth Rhywedd Cymru a'r Ganolfan Trawma Mawr. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymfalchïo mewn arloesi ym maes gofal iechyd, gan gomisiynu'r Robot Versius yn fwyaf diweddar i drin cleifion canser y colon a'r rhefr er mwyn gwella eu canlyniadau a'u hamseroedd adfer.

## GWOBR GWEITHIWR CYMORTH GOFAL IECHYD

NODDIR GAN
**BWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU**

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC)

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn falch o allu noddi'r wobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd. Maent yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'r gweithlu sy'n darparu gwasanaethau ac yn gofalu am gleifion.

Mae PGIAC yn gyfrifol am gomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol a hynod arbenigol ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

Mae gwasanaethau arbenigol yn gyffredinol gymhleth eu natur ac yn elfen gostus o ofal cleifion. Comisiynir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau gan y GIG yng Nghymru ond mae nifer sylweddol o wasanaethau, yn nodweddiadol y rheini ar gyfer cleifion â chlefydau prin iawn, yn cael eu comisiynu o Loegr. Mae ei gyllideb yn tua £750 miliwn y flwyddyn.

## GWOBR CEFNOGI ADDYSG A DYSGU MEWN YMARFER

NODDIR GAN **BRIFYSGOL DE CYMRU**

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Mae Prifysgol De Cymru yn Noddwr balch y wobr hon.. Gyda thua 1500 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, rydym yn gyfranwyr balch ac ymroddedig i'r gweithlu gofal iechyd. Gyda 50% o'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu mewn amgylchedd dysgu mewn ymarfer, mae sicrhau perthynas waith agos gyda'n partneriaid clinigol yn hollbwysig. Ni fyddai llwyddiant ein rhaglenni cyn-gofrestru yn bosibl heb yr ymroddiad a ddangosir gan academyddion a chlinigwyr sy'n cefnogi ein myfyrwyr.

## GWOBR ADDYSG NYRSIO

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWE**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gofal ar gyfer tua 390,000 o bobl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gydag amrywiaeth o wasanaethau trydyddol, gan gyflogi tua 13,000 o staff. Mae ganddo dri phrif ysbyty - Treforys, Singleton a Castell-nedd Port Talbot - ynghyd ag ysbyty cymunedol. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ac mae ganddo gyfrifoldeb am ofal iechyd sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac offthalmolegwyr.

Mae BIP Bae Abertawe yn gartref i Ganolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a'i Ysgol Feddygaeth, yr Ysgol Gwyddorau Dynol ac Iechyd a'r Sefydliad Gwyddor Bywyd 1 a 2.

# Ein Noddwyr

## GWOBR MYFYRIWR NYRSIO

NODDIR GAN **ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU**

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Sefydlwyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar 1 Hydref 2018. Mae'n awdurdod iechyd arbennig o fewn GIG Cymru, a grëwyd drwy ddod â thri sefydliad allweddol ar gyfer iechyd ynghyd: Deoniaeth Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygu Gweithlu (WEDS) GIG Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru (WCPPE). Gan eistedd ochr yn ochr â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, mae gan AaGIC rôl arweiniol yn y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru i ddarparu gofal diogel o ansawdd i bobl Cymru. Mae ei swyddogaethau allweddol yn cynnwys: addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, cynllunio gweithlu strategol, gwybodaeth am y gweithlu, gyrfaoedd ac ehangu mynediad at addysg iechyd.

## GWOBR NYRS GOFRESTREDIG (OEDOLION)

NODDIR GAN **FWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflawni strategaeth uchelgeisiol a rennir ar gyfer "Powys Iach, Ofalgar" i gefnogi pobl leol i Ddechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

Gan gwmpasu sir wledig fawr, mae gofal cymunedol a sylfaenol yn flaenllaw ym mhopeth a wna, ac mae'n gweithio'n agos â Chyngor Sir Powys, y mae'n rhannu'r un ffiniau ag ef, yn ogystal â sicrhau cysylltiadau gweithgar â'r trydydd sector a gyda darparwyr gofal eilaidd a thrydyddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae hyn yn golygu bod gweithio ym Mhowys yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer creadigrwydd, arloesedd ac ymreolaeth glinigol a phroffesiynol i ddarparu cymaint o ofal a chymorth integredig mor agos i'r cartref â phosibl, ac i ddatblygu llwybrau gofal gyda darparwyr cyfagos sy'n cadw cleifion yn ganolog i'r gwaith.

Ble bynnag rydych yn byw yng Nghymru, mae Powys o fewn cyrraedd hawdd ac rydym yn cynnig croeso cynnes i chi i'n tîm cyfeillgar.

## GWOBR PRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU

NODDIR GAN
**BRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU, LLYWODRAETH CYMRU**

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Arweinir Swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru gan Sue Tranka, ac fe'i cefnogir gan bum Swyddog Nyrsio a Phrif Swyddog Bydwreigiaeth, y mae gan bob un ohonynt bortffolio o feysydd y maent yn arwain arnynt. Gyda'i gilydd maent yn darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy i'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, tra hefyd yn rhoi cyngor proffesiynol arbenigol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru. Y Prif Swyddog Nyrsio yw pennaeth y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru ac felly mae'n gosod yr agenda broffesiynol a chyfeiriad y proffesiynau hyn ar gyfer y dyfodol.

## GWOBR ARLOESEDD A DIGIDEIDDIO YM MAES NYRSIO

NODDIR GAN **FRONTIER MEDICAL GROUP**

Mae Frontier Medical Group yn cynhyrchu ac yn marchnata amrywiaeth o ddyfeisiau meddygol sy'n canolbwyntio ar Ofal Mannau Pwysau (PAC).

Mae atebion PAC Frontier Medical yn cynnwys:

- Repose® - amrywiaeth o arwynebau cymorth aer adweithiol, ailddosbarthu a lleihau pwysau ar gyfer atal a thrin briwiau pwysau, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y GIG yng Nghaerdydd.
- Toto® – system troi cleifion ochrol awtomataidd wedi'i gosod o dan unrhyw fatres, ar unrhyw wely, gan alluogi cyfnodau troi ochrol a ragnodir i'r claf hyd yn oed pan fydd cleifion yn cysgu.
- Dermisplus® Prevent – amrywiaeth o badiau gel polymer i ailddosbarthu pwysau a gynlluniwyd er mwyn lleihau'r risg o niwed pwysau fel rhan o strategaeth PAC. Tiwbiau Atal Dermisplus Newydd: tiwbiau gel polymer arloesol sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o MDRPU.

Mae Frontier Medical Group wedi'i leoli yn Nhredegar, mae'n cyflogi dros 100 o staff ac yn ddiweddar mae wedi trefnu sefydliadau gwerthu uniongyrchol yn UDA a'r Almaen.

# Ein Noddwyr

## GWOBR CEFNOGI GWELLIANT DRWY YMCHWIL

NODDIR GAN **BRIFYSGOL CAERDYDD**

Mae Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Caerdydd yn ysgol ddeinamig ac arloesol sy'n cwmpasu ystod eang o broffesiynau gofal iechyd.

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth gofal iechyd sy'n cael effaith gref ac yn gwella canlyniadau iechyd a gofal iechyd yn uniongyrchol i gleifion a theuluoedd. Mae'r gyfadran a'r myfyrwyr yn ymfalchïo mewn dilyn ymchwil ac ysgolheictod o'r ansawdd uchaf ac sy'n sefyll ar flaen y gad mewn trafodaethau gofal iechyd a pholisi ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

I fyfyrwyr yr Ysgol, mae natur amlddisgyblaethol eu hamgylchedd dysgu a mynediad at addysgu gan ymchwilwyr o fri rhyngwladol yn sicrhau eu bod yn dod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol medrus, gwybodus a thosturiol sydd wedi ymrwymo i ethos o ofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## GWOBR GOFAL AM UNIGOLION HŶN

NODDIR GAN **BRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT**

Mae'r Brifysgol yn cynnig portffolio iechyd a lles unigryw sy'n hwyluso dull rhyngddisgyblaethol o ddatblygu cwricwlwm ac ymchwil gymhwysol.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi darpariaeth iechyd a gofal, datblygiad ymchwil cymhwysol ac arloesedd yn ogystal â sgiliau technegol a digidol, fel y gallwn feithrin gallu, mynd i'r afael â diffygion sgiliau, uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu, yn enwedig ar ôl pandemig.

Mae lleoliad ein campysau ar draws De a Chanolbarth Cymru yn ein galluogi i weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys ein byrddau iechyd lleol, er budd iechyd a lles ein rhanbarth drwy ddod â'n harbenigedd ynghyd i wneud gwahaniaethau cadarn i fywydau unigolion yn ein cymunedau.

## GWOBR NYRS Y FLWYDDYN CYMRU 2023

NODDIR GAN **YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ein nod yw darparu gofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a chefnogi pobl iachach. Mae darparu gofal o ansawdd a rhagoriaeth i'n cleifion a'n rhoddwyr wrth galon ein sefydliad. Y ddau wasanaeth craidd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw:

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn darparu rôl genedlaethol o ran darparu gwasanaethau gwaed a thrawsblannu yng Nghymru. Mae'n gweithio i sicrhau bod rhodd gwaed y rhoddwr yn cael ei drawsnewid yn waed a chydrannau gwaed diogel ac effeithiol sy'n galluogi GIG Cymru i wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu triniaethau a gwasanaethau canser anlawfeddygol arbenigol i bobl sy'n byw yn Ne Ddwyrain Cymru ac yn ehangach. Mae'r Ganolfan Ganser yn ganolfan driniaeth, addysgu, ymchwil a datblygu arbenigol ar gyfer oncoleg anlawfeddygol, yn darparu cemotherapi, radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig ac yn gofalu am gleifion ag anghenion gofal lliniarol arbenigol.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn lletya Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

## GWOBRAU NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU: CINIO

NODDIR GAN
**YSGOL GWYDDORAU MEDDYGOL AC IECHYD, PRIFYSGOL BANGOR**

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor yn defnyddio ei harbenigedd a'i phrofiad i ddarparu dysgu ac i greu atebion newydd i heriau ym maes iechyd a gofal. Rydym yn cyflawni hyn drwy wneud gwaith ymchwil iechyd a gofal blaenllaw, ysgolheictod, ac addysgu a dysgu sydd o'r safon a'r gwerth uchaf i fyfyrwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid gan gynnwys ein partneriaid dysgu mewn ymarfer. Cenhadaeth yr ysgol yw bod yn enghraifft ryngwladol o arfer gorau o ran gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a llunwyr polisi. Mae'r Ysgol yn darparu ystod o raglenni perthynol i iechyd a gofal yn ogystal â nyrsio ac wedi gweithredu dysgu rhyngbroffesiynol yn llwyddiannus ar draws ein rhaglenni. Rydym yn arbennig o falch o dreftadaeth ddwyieithog Cymru, a rhoddwn sylw arbennig i gynnal cymhwysedd ieithyddol a diwylliannol yn ein holl waith gyda phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a thrwy ddarparu rhaglenni addysgol dwyieithog.

## GWOBRAU NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU: DERBYNIAD CROESO

NODDIR GAN
**FIELDBAY**

Mae Fieldbay, sy'n rhan o'r grŵp ivolve, yn arbenigo mewn gofalu am oedolion ag anghenion gofal cymhleth; cyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu, cyflyrau niwrolegol hirdymor ac anaf i'r ymennydd. Rydym yn darparu gofal ar draws 5 sir, yn cwmpasu De a Gorllewin Cymru. Mae Fieldbay wedi tyfu o fod yn un cartref nyrsio bach i ddod yn brif ddarparwr gofal yng Nghymru, sy'n cefnogi dros 400 o unigolion ar draws mwy na 30 o leoliadau gofal, ac yn cyflogi dros 1000 o gydweithwyr. Rydym yn darparu ystod o opsiynau gofal, gan gynnwys cartrefi nyrsio, gofal yn y cartref a gwasanaethau byw â chymorth. Atgyfeirir defnyddwyr gwasanaeth o leoliadau cleifion mewnol a'r gymuned, yn ogystal â lleoliadau fforensig a darparwyr gofal eraill. Rydym yn sefydliad gwobrwyedig a arweinir gan werthoedd; yn hyrwyddo caredigrwydd, gwytnwch ac angerdd am ofal, gyda'r bobl yr ydym yn gofalu amdanynt wrth galon popeth a wnawn. Cefnogir ein gweithlu i dyfu a datblygu. Rydym yn gyflogwr sy'n gwrando, yn dysgu ac yn annog.

## GWOBRAU NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU: ADDURNIADAU BLODAU AR Y BYRDDAU A THUSWAU

NODDIR GAN
**YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU**

Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw darparwr cenedlaethol gofal brys ac argyfwng cyn ysbyty i boblogaeth Cymru. Mae WAST yn darparu gwasanaethau cenedlaethol 999 ac 111 Cymru ac mae ganddo weithlu nyrsio cofrestredig sylweddol yn gweithio ochr yn ochr â pharafeddygon, technegwyr meddygol brys a gweithwyr cymorth gofal iechyd eraill. Mae nyrsys cofrestredig yn rhan hollbwysig o'n gweithlu yn arwain nifer o feysydd arbenigol megis Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau a'n dull ar gyfer Gweithio i Wella. O fewn ein gwasanaeth 999 ac 111 Cymru mae nyrsys a bydwragedd cofrestredig yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cleifion gydag ymgynghoriadau clinigol o bell i benderfynu ar y dull gorau o gefnogi eu gofal ac i'n criwiau o ran darparu cyngor ac arweiniad arbenigol, e.e. Ymarferwyr Iechyd Meddwl a arweinir gan Ymgynghorydd Nyrsio sy'n cefnogi'r gwasanaeth 999.

# Gwobr Plant a Bydwreigiaeth



## CARA MORUZZI

Bydwraig Arbenigol Iechyd Meddwl Amenedigol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Mae Cara yn rhoi'r lefel uchaf o ofal i fenywod sydd â salwch meddwl sylweddol yn ystod beichiogrwydd. Roedd hi'n ganolog i ddatblygiad clinig dan arweiniad bydwragedd ochr yn ochr â'r seiciatrydd amenedigol a'r obstetrydd, gan ddarparu parhad gofal er mwyn paratoi ar gyfer genedigaeth.

Cwblhaodd hyfforddiant sefydlogi a sgiliau yn annibynnol, gan ei helpu i greu gweithdy ar gyfer menywod yn ei gofal, a chynhaliodd gysylltiadau effeithiol rhwng y rhwydwaith bydwragedd amenedigol ac uned mamau a babanod Cymru gyfan.

Camodd Cara i'r swydd bydwraig arbenigol dros dro ar gyfer iechyd meddwl amenedigol ar fyr rybudd yn 2021, ond daeth ei hangerdd a'i hymroddiad i'r amlwg yn gyflym.

Dywedodd cydweithwyr nyrsio amenedigol fod Cara "yn dangos gwir dosturi tuag at y menywod ac yn parchu anghenion menywod unigol a gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol." Dywedodd fferyllydd amenedigol fod ganddi "ffordd wych o siarad â menywod a thawelu eu meddwl, yn enwedig y rheini â salwch meddwl difrifol." Roedd hyn yn cynnwys menyw a oedd wedi ceisio lladd ei hun yn ystod beichiogrwydd.

Mae Cara wir yn poeni am ei gwaith ac mae'n angerddol ynghylch gwella canlyniadau i fenywod a'u teuluoedd. Teimlai'r panel iddi ddefnyddio profiadau bywyd i fod yn gredadwy ac yn ddynol.




## REBEKAH MURPHY

Dirprwy Brif Nyrs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwnaeth Rebekah gyfraniad mawr i adnabod sepsis ymhlith plant dan flwydd oed, gan ddatblygu siart arsylwi pediatrig arbenigol yn benodol ar eu cyfer.

Fel dirprwy brif nyrs yn uned achosion brys pediatrig Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, mae Rebekah yn rhannu cyfrifoldeb am ofal brys tua 100,000 o blant yn y rhanbarth, gyda'i huned yn ganolfan trawma mawr ar gyfer de Cymru.

Roedd ei rôl gyda'r gweithgor sepsis pediatrig wedi galluogi Rebekah i gydnabod yn llawn bwysigrwydd adnabod sepsis yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd. Dyluniodd siart gyda sgôr rhybudd cynnar â chod lliw i alluogi defnyddwyr i adnabod risg o salwch a dirywiad. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i staff ar weithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer y rheini sydd â sgôr uwch.

Ar ôl cael cymeradwyaeth gan grwpiau ansawdd a diogelwch byrddau clinigol, dechreuwyd rhoi'r siart ar waith ym mis Rhagfyr 2021. Darparodd Rebekah hyfforddiant a chefnogodd staff drwy gydol y cyfnod pontio, ac mae'r siart arsylwi pediatrig bellach wedi'i chynnwys mewn ymarfer. Mae adnabyddiaeth gynnar yn helpu i leihau marwolaethau ac afiachedd drwy ymyrraeth gynnar a thriniaeth.

Amlygwyd angerdd a phroffesiynoldeb Rebekah gan iddi neilltuo ei hamser ei hun i gwblhau'r prosiect fel y gellid ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, gan sicrhau'r canlyniadau gorau yn gyflym.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Gwobr Nyrsio Cymunedol



## LOUISE HYMERS

Nyrs Arweiniol ar gyfer Canser a Gofal Lliniarol Macmillan, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



## SIAN LEWIS

Nyrs Arweiniol Clinigol a

## BIANCA OAKLEY

Uwch Ymarferydd Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Louise yn arweinydd nyrsio llawn gweledigaeth ar gyfer gofal lliniarol cymunedol. Hi sy'n gyfrifol am weithredu CARiAD, sef pecyn gofal ymatebol ac amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a gyflwynwyd gyntaf i gymuned Powys yn 2020.

Mae CARiAD yn ymwneud â gofalwyr yn rhoi meddyginiaeth isgroenol (SC) ar gyfer symptomau arloesol cyffredin pobl sy'n marw gartref. Mae'n galluogi cleifion i aros gartref a derbyn gofal o ansawdd gwell gan ofalwyr anffurfiol yn nyddiau olaf eu bywyd.

Fel Nyrs Arweiniol Macmillan ar gyfer Canser a Gofal Lliniarol, mae Louise yn angerddol am wella gofal diwedd oes. Adlewyrchwyd hyn mewn tystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol CARiAD mewn rheoli symptomau diwedd oes yn amserol ar draws sir wledig Powys, nad oes ganddi wasanaeth nyrsio ardal 24 awr.

Mae Louise wedi cynyddu gallu pobl i aros gartref ar gyfer gofal diwedd oes, gyda gofalwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u gwerthfawrogi yn eu rôl. Mae ei sgiliau gweithredu newid wedi ysbrydoli timau cymunedol ar draws y rhanbarth.

Dangosodd wir graffter ac ymroddiad i anghenion cymunedau gwledig mewn ymateb i heriau COVID-19. Roedd y panel yn teimlo bod Louise wedi cyflwyno ffordd o weithio a oedd yn "wirioneddol newidiol." Mae adborth gan berthnasau wedi galw ei gwaith yn "fendith".

Sefydlodd Sian a Bianca wasanaeth mân anafiadau/Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDUC) yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi, adeilad newydd a arianwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dangosodd data a gasglwyd dros dri mis ar ddechrau 2021 fod 756 o bobl a ddaeth i adrannau achosion brys yn Aberystwyth, Caerfyrddin a Hwlffordd, ond na chawsant eu derbyn i'r ysbyty, yn byw o fewn 20 milltir i Ganolfan Gofal Integredig Aberteifi. O'r rheini, gallai 618 gael eu hanghenion wedi'u diwallu gan wasanaeth SDUC dan arweiniad uwch ymarferydd nyrsio.

Mae'r Nyrs Arweiniol Clinigol, Sian, a'r Uwch Ymarferydd Nyrsio, Bianca, wedi llywio'r gwasanaeth newydd ar gyfer gofal lleol. Roeddent yn cydnabod bod dull system gyfan yn hanfodol, gan gydweithio â chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o'r dechrau a chynnwys arbenigedd sydd eisoes yn ganolog.

Mae eu hymdrechion wedi rhoi mynediad i gleifion at ofal yn nes at eu cartrefi, a lleihau'r pwysau ar safleoedd ysbytai cyffredinol. Ar hyn o bryd mae'r cyfartaledd presenoldeb yn 60 o gleifion y dydd, ac mae gan y gwasanaeth hefyd yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth allgymorth pan fo angen.

Mae'r gwasanaeth trawsnewidiol yn adlewyrchu ymrwymiad diflino Sian a Bianca i wella SDUC mewn cymunedau lleol. Dywedodd y panel eu bod wedi herio ffyrdd traddodiadol o weithio drwy angerdd gwirioneddol dros ddarparu gofal effeithiol yn nes at adref.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth



## TRACY EVANS

Nyrs Glinigol Arbenigol, Oedolion Digartref ac Agored i Niwed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



## SHARON WEBBER

Bydwraig Arbenigol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae Tracy wedi chwarae rhan hollbwysig mewn gwella canlyniadau iechyd a mynediad at wasanaethau i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref. Datblygodd ffyrdd newydd a gwell o gefnogi pobl ag anghenion hynod gymhleth, gan roi cymorth arbenigol a chydlynu gofal iechyd.

Mae Tracy, sydd yn ei swydd ers mis Mehefin 2021, wedi dangos agwedd gadarnhaol ac arweinyddiaeth eithriadol yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a darparwyr tai trydydd sector. Mae'n datblygu perthynas waith effeithiol, gan gydweithio ar draws tri awdurdod lleol gyda staff hosteli a thai dros dro, yn ogystal â thîm allgymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaeth y rhwydwaith o gysylltiadau cadarnhaol a sefydlwyd gan Tracy helpu i sicrhau bod pobl yn cael gofal a chymorth priodol seiliedig ar dystiolaeth, pan nad oedd hynny'n cael ei ystyried yn hygyrch cyn ei phenodiad. Mae wedi gweithio i gysylltu pobl ag amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymarferwyr cyffredinol, timau iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol cymunedol, podiatreg, clinigau iechyd rhywiol a thimau brechu.

Mae dull hyblyg Tracy o ymateb i anghenion unigol yn glir. Un enghraifft o hyn yw sut y cynhaliodd, ynghyd ag elusennau lleol, deithiau brecwast bore cynnar ar gyfer pobl ddigartref, ac mae'n darparu gofal ar y strydoedd. Trwy feithrin cysylltiadau mae'n ennill ymddiriedaeth ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Sefydlodd Sharon wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu yn ystod mamolaeth fel gwasanaeth craidd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Roedd data a gasglwyd gan y bwrdd iechyd yn 2019 yn dangos bod 22% o fenywod beichiog wedi'u cofrestru fel ysmygwyr, tra bod adolygiad mamolaeth annibynnol yn 2019 wedi amlygu'r cysylltiad rhwng ysmygu a marw-enedigaeth. Argymhellodd yr adolygiad y dylid gwella cyfathrebu i atal oedi wrth nodi achosion risg uchel ynghyd â marwolaethau ac afiachedd cysylltiedig.

Mae newidiadau a arweiniwyd gan waith Sharon yn golygu bod llythyr llongyfarch iechyd y cyhoedd bellach yn rhoi'r wybodaeth i fenywod beichiog atgyfeirio eu hunain, gan annog mynediad cynnar at y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu. Mae monitro Carbon Monocsid newydd ar bob cam, gan gynnwys ôl-enedigol, wedi canfod problemau sy'n cynnwys ysmygu goddefol a boeleri diffygiol. Mae gweithwyr cymorth bydwreigiaeth yn mynd i'r afael ag iechyd cyffredinol drwy weithgaredd fel techneg tynnu sylw, gan gynnig peli straen a phedometrau.

Cafodd y panel ei blesio gan sut y dangosodd Sharon ddull cadarn o gymhwyso ymarfer a data seiliedig ar dystiolaeth yn y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, gan wella canlyniadau iechyd i famau a babanod. Dangosodd sut mae'n ymgysylltu â'r tîm a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ehangach, gan eu galluogi i wneud i bob cyswllt gyfrif wrth wella iechyd unigolion a'r boblogaeth.

NODDIR GAN
**IECHYD CYHOEDDUS CYMRU**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Gwobr Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl



**MELANIE RIX-TAYLOR**
Cynghorydd Nyrsio - Anableddau Dysgu, Tîm Comisiynu Gofal Iechyd IM ac AD, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**JUDITH WALL** a **BETHAN WILLIAMS**
Nyrsys Cyswllt Anabledd Dysgu Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymatebodd Melanie i anghenion ei chleifion a'u teuluoedd i helpu pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog ar adeg o argyfwng.

Mae Melanie, sy'n Nyrs Anableddau Dysgu gofrestredig ers 1984, wedi gweithio am y deng mlynedd diwethaf yn y tîm Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu fel rheolwr achos Gofal Iechyd Parhaus.

Mae pobl sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog yn grŵp bach sydd â'r anghenion mwyaf sylweddol, sy'n aml yn cael gofal gartref gan eu teuluoedd ac weithiau'n cael trafferth cael cymorth.

Yn ystod y pandemig, lleihawyd gwasanaethau cymunedol a seibiant, gan adael teuluoedd wedi'u hynysu ac yn ei chael hi'n anodd.

Daeth yn amlwg bod llawer yn ofni y gallai eu plant fynd i unedau arbenigol ymhell i ffwrdd oherwydd nad oedd opsiynau lleol addas.

Cysylltodd Melanie â darparwyr a daeth o hyd i gyfle mewn datblygiad newydd ar gyfer uned fach, bwrpasol. Nododd hefyd grŵp bach o bobl gydnaws i'w blaenoriaethu ar gyfer y gwelyau hyn.

Yna gweithiodd gyda theuluoedd a'u cydlynwyr gofal i ddatblygu cynlluniau unigol.

Mae sawl un bellach wedi symud i'r uned ac yn gwneud yn dda. Mae Melanie wedi helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn gyflym ac mae'n parhau i gysylltu â theuluoedd a gwrando ar unrhyw bryderon.

Datblygodd Judith a Bethan y Gwasanaeth Cyswllt Anabledd Dysgu Aciwt ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo gofal cleifion cyfannol ac unigol i wella profiadau iechyd pobl ag anableddau dysgu, sy'n aml yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd da.

Fel Nyrsys Cyswllt Anabledd Dysgu Aciwt, mae Judith a Bethan wedi gweithio'n ddiflino drwy heriau'r pandemig i godi proffil pobl ag anabledd dysgu ac amlygu eu hanghenion.

Yn ogystal â rhoi cymorth clinigol, maent wedi cefnogi staff iechyd a darparu hyfforddiant.

Gwnaethant gyfrannu at bolisi clinigol: 'Pobl ag Anabledd Dysgu sy'n Cael Mynediad at Ofal Eilaidd Aciwt', gan drosi safonau Cymru yn bolisi bwrdd iechyd cyfan.

Gwnaethant hefyd ddatblygu tudalen Anabledd Dysgu ar fewnrwyd y staff, ac maent bellach yn treialu system Atgofion/Adsefydlu a Gweithgareddau Therapi Rhyngweithiol (RITA), sy'n galluogi cleifion i ddefnyddio apiau a gemau i leihau eu straen.

Gwnaeth Judith a Bethan hefyd ddatblygu blychau synhwyraidd ar gyfer gwahanol wardiau ac adrannau ac maent yn gweithio gyda myfyriwr dylunio graffeg i wella dyluniad y byrddau gwybodaeth anabledd dysgu.

Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar bobl ag anabledd dysgu sy'n dod i'r ysbyty, yn enwedig o ran eu helpu i dawelu a lleihau trallod.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN**


GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol



## ANDREA DORRINGTON

Nyrs Arweiniol ar gyfer Gofal Sylfaenol Brys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



## NATALIE JANES

Uwch Nyrs Gwasanaethau Clinigol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Andrea oedd y nyrs arweiniol wrth sefydlu Hyb Anadlol Gymunedol i ddarparu gwasanaeth lleddfu neu esmwytho symptomau ar unwaith i gleifion sy'n profi diffyg anadl, aflonyddwch, pryder, poen, neu ddeliriwm oherwydd COVID-19.

Roedd ei harweinyddiaeth wrth sefydlu'r gwasanaeth newydd hwn yn gyflym ar ddechrau'r pandemig yn hanfodol i'w lwyddiant. Mae'r cyflawniad hyd yn oed yn fwy trawiadol oherwydd ei bod yn parhau â'i 'swydd pob dydd' fel Nyrs Arweiniol ar gyfer Gofal Sylfaenol Brys ac yn gweithio'n glinigol fel rhan o'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau fel Uwch Ymarferydd Nyrsio.

Fe wnaeth yr Hyb alluogi llawer o gleifion i aros gartref i gael gofal, ac ehangodd gynlluniau rheoli a thriniaeth i gartrefi gofal, nyrsys ardal a pharafeddygon a oedd yn gofalu am gleifion â COVID-19 wedi'i amau neu ei gadarnhau yn y gymuned.

Mae llawer o agweddau ar wasanaeth yr Hyb bellach wedi'u gwreiddio yn y ddarpariaeth meddygon teulu y tu allan i oriau a'r gwasanaethau craidd sy'n cael eu darparu, fel y gall cleifion aros gartref a chael rhyddhad poen amserol ar ddiwedd oes yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru.

Mae brwdfrydedd Andrea dros nyrsio ar bob lefel a datblygu timau ag arweinyddiaeth ysbrydoledig yn dangos sut y gall cysylltu gwahanol rolau helpu i wella gofal cleifion.

Mae Natalie yn uwch nyrs arloesol a chadarnhaol, y mae ei gwaith fel arweinydd y gwasanaeth ocsigen (O2) wedi helpu i atal derbyniadau ysbyty, lleihau cysylltiadau brys â meddygon teulu, a sicrhau bod cleifion anadlol yn cael y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn.

Mae Natalie a'i thîm anadlol yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl gan sicrhau bod cleifion sydd angen gofal anadlol yn cael eu cefnogi'n unigol ac yn cael gofal diogel o safon uchel 'yn nes at adref'.

Cefnogodd Grŵp Gwella Iechyd Anadlol O2 Cymru Gyfan i lunio dogfennaeth unedig, gweithdrefnau gweithredu safonol, ac asesiad risg cadarn drwy weithio ar y cyd â thimau gan gynnwys y Gwasanaeth Tân.

Yn ystod y pandemig sicrhaodd Natalie y cysylltwyd â 1,000 o gleifion a oedd yn derbyn ocsigen, a'u bod yn cael eu hasesu, a'u cynghori drwy blatfformau rhithwir. Lle'r oedd sefyllfaoedd o ynysu cymdeithasol a risgiau eraill, roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau a oedd yn cynnwys pryd ar glud a Chysylltwyr Cymunedol.

Mae Natalie a'i thîm hefyd yn darparu hyfforddiant achrededig ar gyflyrau anadlol. O ganlyniad i'w brwdfrydedd a'i harweinyddiaeth ragorol mae'r tîm anadlol wedi cael cymorth gan Sefydliad Nyrsio'r Frenhines a Phatrymau Enghreifftiol Bevan i barhau â'r gwaith ar draws meysydd Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Gwnaed argraff ar y panel gan onestrwydd Natalie o ran ei harddull arwain, gan ddangos dirnadaeth a hunanymwybyddiaeth a rhoi ystyriaeth i'w lles ei hun a lles ei staff.

NODDIR GAN
**BMA CYMRU WALES**

BMA Cymru Wales

# Gwobr Nyrsio Gofal Lliniarol Pediatrig Suzanne Goodall



**NICOLE CRIMMINGS**
Arweinydd Cymorth i Deuluoedd, Tŷ Hafan
a
**ROISIN HOLLINGER**
Band Clinigol 7 PCCU, Ysbyty Plant Arch Noa, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



**KERRI ROWE**
Nyrs Arbenigol Allgymorth Oncoleg Pediatrig (POONS), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ar y cyd mae Nicole a Roisin wedi cyflwyno'r Llwybr Gofal Hosbis ar ôl Rhoi Organau, prosiect sydd â'r potensial i wneud gwelliant sylweddol i'r gofal a ddarperir i deuluoedd y mae eu plentyn wedi cyrraedd diwedd oes a lle mae rhoi organ yn cael ei ystyried.

Maent yn gweithio i Dŷ Hafan a Gofal Critigol Pediatrig (PCCU) yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn y drefn honno, a gwnaed argraff ar y panel gan y ffaith eu bod wedi cyflawni cymaint er na wnaethant gyfarfod wyneb yn wyneb tan ddiwrnod cyfweliad Nyrs y Flwyddyn – roedd y nifer o gyfarfodydd a gawsant yn flaenorol i gyd yn rhai rhithwir oherwydd y pandemig.

Mae'r prosiect wedi'i wreiddio yn nealltwriaeth gynhenid Nicole a Roisin o anghenion teuluoedd yn y sefyllfa drawmatig hon ac wedi'i danategu gan ganllawiau cenedlaethol.

Mae Tŷ Hafan yn darparu gofal diwedd oes i blant a'u teuluoedd gan gynnwys gofal ar ôl marwolaeth yn yr hosbis am hyd at 48 awr. Roedd tîm PCCU yn cydnabod amgylchedd unigryw'r hosbis ac nad y PCCU prysur yw'r lle gorau bob amser i ddiwallu anghenion teuluoedd.

Roeddent hefyd yn cydnabod, drwy gynnig y cymorth cyfannol gwell hwn yn Nhŷ Hafan, gan gynnwys yr opsiwn am amser mwy ystyrlon i ffarwelio, y gallai mwy o deuluoedd gymryd rhan mewn rhoi.

Ar ôl cydweithio dwys â chydweithwyr dros 18 mis, lansiwyd y llwybr gofal ganddynt ym mis Mawrth 2022.

Mae Kerri yn Nyrs Allgymorth Oncoleg Pediatrig (POONS) llawn ysbrydoliaeth ac ymroddiad sy'n gweithio ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Disgrifiodd y panel Kerri fel unigolyn "llawn empathi, angerddol, arloesol a gwir arweinydd trawsnewidiol yn y maes nyrsio hwn sy'n dangos arweinyddiaeth ragorol ac ymrwymiad hirsefydledig".

Ers bod yn ei swydd, mae wedi datblygu ei sgiliau a'i harbenigedd a bydd bob amser yn mynd yr ail filltir i'r plant, y bobl ifanc, a'r teuluoedd sydd yn ei gofal.

Mae Kerri yn arloeswr brwd, ac mae ei gwaith wedi'i seilio ar yr ymchwil a'r sail dystiolaeth ddiweddaraf. Fel rhan o'i MSc mewn Meddygaeth Liniarol ym Mhrifysgol Caerdydd, mae hi wedi cynnal astudiaeth ymchwil fechan yn ymchwilio rôl POONS wrth ddarparu gofal profedigaeth i deuluoedd.

Mae Kerri wedi bod yn ddylanwadol wrth arwain y gwaith o roi polisi lleol, canllawiau, a dogfennaeth ar gyfer staff nyrsio ar waith ar gyfer yr Uned Rhannu Gofal Oncoleg Pediatrig yng Nghaerfyrddin.

Yn ystod ei modiwl gwella ansawdd fel rhan o'i gradd MSc, nododd bryder yn lleol ynghylch rhoi cemotherapi'n ddiogel yn y gymuned a'r angen am bympiau i wella diogelwch cleifion ac ansawdd. Ar hyn o bryd mae Kerri yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm hyfforddi dyfeisiau clinigol ac uwch reolwyr i wneud gwelliannau yn y maes hwn.

NODDIR GAN
**HOSBIS PLANT TŶ HAFAN**

tŷ hafan
the hospice for children in Wales
yr hosbis i blant yng Nghymru

# Gwobr Nyrsio Uwch ac Arbenigol



## TARA REES

Nyrs Glinigol Arbenigol Hepatoleg Arweiniol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dangosodd Tara ei hangerdd dros wella profiad cleifion drwy greu gwasanaethau newydd ar gyfer y rhai ag anghenion arbenigol. Yn ddiweddar creodd achos busnes llwyddiannus i sefydlu gwasanaeth carsinoma hepatogellog ar gyfer cleifion â chlefyd yr afu cam olaf. Mae'r gwasanaeth newydd yn gam mawr i garfan o gleifion a fydd â mynediad at weithiwr allweddol am y tro cyntaf.

Roedd y cyflawniad hwn yn dilyn sefydlu'r clinig cymunedol cyntaf yng Nghymru i drin cleifion hepatitis C firaol, a chreu rôl nyrs glinigol arbenigol hepatoleg.

Fel Ymarferydd Nyrsio Arweiniol ar gyfer y gwasanaeth Hepatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae Tara yn arbenigwr clinigol yn y maes. Mae wedi gweithio ar lefel uwch i eiriol dros garfan o gleifion agored i niwed ac wedi ymroi ei gyrfa i adeiladu gwasanaethau newydd.

Defnyddiodd Tara ei chyfrifoldebau arwain ar gyfer ymarfer a pholisi, gan ddehongli datblygiadau a chanllawiau newydd ac arloesi gwasanaeth ar gyfer gwell profiad i gleifion. Mae hefyd wedi arwain ar achrediad cenedlaethol ar gyfer ei gwasanaeth hepatoleg ac wedi bod yn nyrs arweiniol ar gyfer Cynllun Cyflawni Clefyd yr Afu Cymru Gyfan.

Teimlai'r panel ei bod wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ofal cleifion a datblygiad tîm.



## TRICIA ROBERTS

Nyrs Glinigol Arbenigol Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Arloesodd Tricia waith ym maes gwasanaethau Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) i oedolion yng ngorllewin Cymru. Sefydlodd wasanaethau o'r newydd, gan feithrin gobaith a phositifrwydd ynghylch derbyniad a chydraddoldeb ymhlith y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau.

Gan ymdrechu'n gyson i arloesi a datblygu, tra'n cadw at bolisi, strategaeth a safonau'r NMC yng Nghymru, roedd Tricia yn deall y cymorth a'r driniaeth gyfyngedig sydd ar gael i'r rheini sy'n byw gydag ADHD. Bu'n ddiwyd yn jyglo datblygiad gwasanaeth, rheoli llinell, hyfforddiant, a gwaith nyrsio clinigol o ddydd i ddydd.

Roedd Tricia yn allweddol ym mhob polisi a phrofforma oedd eu hangen ar wasanaeth arbenigol, o'r ffurflen atgyfeirio i'r canllawiau rhagnodi. Bu'n ystyried yn ofalus y berthynas â llywodraethu clinigol y bwrdd iechyd, gan weithio'n aml y tu hwnt i'w chylch gwaith er mwyn sicrhau amodau gwaith diogel a theg, a darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Wrth i'r tîm fwy na dyblu mewn chwe mis, roedd ei sgiliau arwain yn hollbwysig.

Cymerodd Tricia gamau uniongyrchol er budd defnyddwyr gwasanaeth, gan ddilyn cyrsiau a manteisio ar gyfleoedd dysgu eraill yn ei hamser ei hun. Fe wnaeth ennill cymhwyster rhagnodydd anfeddygol ei helpu i ehangu'r gwasanaeth a lleihau amseroedd aros ar gyfer pobl sy'n dechrau triniaeth.

Roedd ei thosturi a'i gofal yn disgleirio drwy gydol y gwasanaethau y bu'n helpu i'w gyflawni.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd



## KELLY BROWN

Gweithiwr Cyswllt Cof, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Sicrhaodd Kelly fod pobl â nam gwybyddol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn derbyn gofal a chymorth rhagorol pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.

Fel y gweithiwr cyswllt cyntaf a benodwyd i'r tîm cof, cynhaliodd Kelly weithgareddau hanfodol gyda phobl â nam gwybyddol neu ddeliriwm ôl-lawdriniaethol. Cofleidiodd y grŵp cleifion hynod heriol hwn, gan osod y sylfeini ar gyfer ei rôl newydd.

Mae ei gweithgareddau wedi cynnwys lliwio, jig-so a cherddoriaeth, yn ogystal â gofalu am anghenion corfforol, meddyliol a lles. Mae Kelly yn cael budd mawr o weld llawenydd ei chleifion pan fydd yn paentio eu hewinedd, plethu eu gwallt neu'n eu heillio, fel eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus, hyd yn oed os yw eu hamgylchedd yn frawychus ac yn llethol ar adegau.

Pan gynhyrfodd un claf ynglŷn â marwolaeth ei wyres, a'r syniad o fethu â mynychu'r angladd, gwnaeth Kelly ymholiadau ynghylch a allai fynychu'r angladd gydag ef, cyn trefnu i hynny ddigwydd. Helpodd hyn i sefydlogi'r claf. Trefnodd hefyd i gŵn claf ddod ar dir yr ysbyty gan ei fod wedi cynhyrfu o fod yn yr ysbyty ac oddi wrth ei anifeiliaid anwes.

Cydnabu'r panel angerdd a chariad llwyr Kelly at ei swydd.



## HEATHER FLEMING

Ymarferydd Cynorthwyol y Bledren a Choluddyn y Blynyddoedd Cynnar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Heather wedi lleihau'r trallod a brofir gan blant a'u rhieni a'u gofalwyr ynghylch ymataliaeth mewn plentyndod.

Fel ymarferydd cynorthwyol y bledren a'r coluddyn (EYBBAP) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rhoddodd Heather ofal, cyngor a chymorth priodol yn y gymuned. Gweithiodd yn ddiflino i ddatblygu'r gwasanaeth a chyrraedd cymaint o blant a theuluoedd â phosibl.

Wrth roi gofal a chymorth ataliol, ymyrraeth gynnar yn ymwneud â hyfforddiant toiled ac ymataliaeth, nod Heather oedd sicrhau canlyniadau iechyd teg. Rhoddodd addysg a hyfforddiant i leoliadau blynyddoedd cynnar yn y gymuned, megis canolfannau plant, mannau cyn-ysgol a meithrinfeydd, gan sicrhau parhad gofal. Rhoddodd hefyd gefnogaeth un-i-un yn y cartref, gan feithrin perthynas broffesiynol llawn ymddiriedaeth.

Roedd y cyfraniad a wnaeth i iechyd a lles cyffredinol yn hollbwysig, ar adeg a allai fod yn hynod heriol a gofidus. Helpodd ei chefnogaeth i leihau'r rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth ymataliaeth pediatrig a helpodd i gynyddu nifer y plant sydd wedi cael hyfforddiant toiled llawn sy'n dechrau meithrinfa neu ysgol.

Gwelodd y panel nifer o enghreifftiau lle'r oedd gwaith Heather wedi arwain at effaith sylweddol a chanlyniadau gwell i blant, ac roedd yn amlwg ei bod yn ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth.

NODDIR GAN
**BWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU**

GIG CYMRU NHS WALES
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC)

# Gwobr Cefnogi Addysg a Dysgu mewn Ymarfer



## HAYLEY COMPTON

Arweinydd Tîm Gweithredol a

## CARLA EVANS

Nyrs Staff Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Datblygodd Hayley a Carla raglenni addysgol i hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHP) a staff gofal awdurdodau lleol i nodi ac uwchgyfeirio pryderon ynghylch niwed i'r croen, yn enwedig ymhlith cleifion oedrannus a bregus.

Gwnaethant arwain grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi arwain at 50 AHP a 70 aelod staff gofal o ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn cwblhau'r rhaglenni addysgol – gan arwain at ganfod niwed i'r croen yn gynharach a'i drin yn gynt.

Gan fod llawer o gleifion bellach yn cael eu cefnogi gartref, heb o reidrwydd gael adolygiad mater o drefn gan nyrs gymunedol, weithiau ni adroddir ar niwed i'r croen.

Nododd Hayley a Carla nifer uchel o achosion o niwed i'r croen gan y timau hyn a oedd yn ymdrin â chleifion bregus a chanfod nad oedd unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar iechyd y croen ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff gofal.

Fe wnaethant oresgyn llawer o rwystrau i ddatblygu rhaglen hyfforddi, a phenododd yr awdurdod lleol bartner addysgol i ddarparu cefnogaeth a goruchwyliaeth barhaus.

Bu gwelliant sylweddol mewn ymwybyddiaeth a gwybodaeth am niwed i'r croen, gyda llawer mwy o atgyfeiriadau i nyrsio cymunedol gan y cydweithwyr hyn ac arosiadau byrrach gyda'r nyrsys cymunedol - oherwydd bod niwed i'r croen yn cael ei ganfod a'i drin yn gynharach.

Mae Hayley a Carla wedi dangos penderfyniad i sicrhau'r newid hwn, sydd wedi golygu canlyniadau cadarnhaol i gleifion a mwy o hyder a gwybodaeth i staff.



## LAURA LITTLE

Bydwraig Arbenigol Lles a Gwyliadwriaeth y Ffetws, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Laura yw'r fydwraig arbenigol lles a gwyliadwriaeth y ffetws gyntaf yng Nghymru. Mae'n arweinydd effeithiol ac yn ymarferydd arloesol, sydd wedi ymrwymo i wella gwasanaethau bydwreigiaeth, addysgu staff, a gwella canlyniadau i fabanod.

Ymhlith llawer o ddatblygiadau arloesol yn ei rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae Laura wedi cydlynu a threfnu hyfforddiant a gweithrediad system newydd o fonitorau Cardiotocograffeg (curiad calon babanod) ac wedi datblygu grŵp hyfforddi ar gyfer staff mamolaeth cymwys.

Mae hefyd yn gyd-sylfaenydd ac yn gadeirydd y Grŵp Rhwydwaith Monitro y Ffetws sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Mae wedi bod yn allweddol wrth gyflwyno dehongliad ffisiolegol o fonitro'r ffetws i'r Bwrdd Iechyd, gan ddyfeisio ac addasu offeryn dehongli newydd i alluogi'r newid i ddull cwbl ffisiolegol. Mae wedi cydweithio â phob uned obstetrig i adolygu cyfarfodydd myfyrio er mwyn addasu i'r heriau o ganlyniad i'r pandemig.

Mae gwaith Laura wedi cael cydnabyddiaeth yn genedlaethol gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) a'r BMJ, am ddatblygu platfform rhithwir i hwyluso dysgu myfyriol.

NODDIR GAN
**BRIFYSGOL DE CYMRU**



## DIANA DE

Uwch Ddarlithydd, Nyrsio Oedolion, Prifysgol Caerdydd

Mae Diana wedi ymrwymo'n llwyr i ddau faes addysgol allweddol - ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn rhaglenni addysgol a chyflwyno'r rhaglen dychwelyd i ymarfer (RTP).

Mae'n gweithio'n galed i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd a'u cyfleu i fyfyrwyr drwy sesiynau arloesol a diddorol.


Mae Diana wedi datblygu ac arwain modiwl Iechyd Byd-eang newydd ar y rhaglen Baglor mewn Nyrsio, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn lleoliadau gofal iechyd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Yn ddiweddar gwnaeth achos llwyddiannus dros brynu manicinau lliw croen amrywiol i ddangos llosg haul a chreithiau celoid, ac mae wedi recordio sesiynau chwarae rôl yn ymwneud â thrais er anrhydedd.

Mae'n hyrwyddo pwysigrwydd ystyried gwerthoedd, credoau ac arferion diwylliannol pobl wrth ddarparu gofal, ac mae'n hoffi archwilio ffyrdd hwyliog seiliedig ar brofiad o ddysgu a gweld myfyrwyr yn teimlo'n gyffrous, hyd yn oed pan y gallai'r pwnc fod yn anodd.

Ym mis Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, rheolodd Diana yr RTP newydd oedd wedi'i gymeradwyo ac ymatebodd i'r her o newid y rhaglen o ddysgu wyneb yn wyneb i ddysgu cyfunol mewn ychydig ddyddiau.

Mae'r panel yn teimlo'n siŵr y bydd ei hangerdd yn parhau i ysbrydoli eraill am flynyddoedd lawer.



## NELSON SELVARAJ

Darlithydd, Nyrsio Oedolion ac Arweinydd Rhifedd (Nyrsio), Prifysgol Caerdydd

Mae arweinyddiaeth Nelson ym maes rhifedd ar lefel gradd ar gyfer myfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd wedi gweld cynnydd enfawr yn y niferoedd sy'n pasio y tro cyntaf.

Trwy annog myfyrwyr i fwynhau mathemateg a pheidio â bod ofn y pwnc, cynyddodd y ganran a basiodd yr arholiad y tro cyntaf gan draean - o 64% i 86%, ac mae'n gweithio i gynyddu hyn ymhellach.

Mae rhifedd yn hollbwysig i gefnogi ymarfer meddyginiaeth diogel, ac mae Nelson eisiau gwella dealltwriaeth ei fyfyrwyr fel eu bod yn dod yn weithwyr proffesiynol hyderus mewn maes ymarfer y mae llawer yn cael trafferth ag ef.

Gwnaed argraff ar y panel gan ei frwdfrydedd, ei gymhelliant a'i angerdd – rhinweddau a gafodd eu cydnabod gyda gwobr Darlithydd y Flwyddyn a enwebwyd gan fyfyrwyr yn 2019.

Wedi'i ddisgrifio fel unigolyn caredig, gofalgar a thosturiol, mae Nelson yn fodel rôl i fyfyrwyr a chydweithwyr fel ei gilydd. Mae ei agwedd broffesiynol gadarnhaol gyson yn rhoi tystiolaeth ragorol o arweinyddiaeth i gefnogi myfyrwyr a chydweithwyr.

Cefnogodd addysgu ac addysg i staff y bwrdd iechyd i weithio yn yr amgylchedd gofal critigol ar ddechrau'r pandemig, gan alluogi mwy o nyrsys cofrestredig i gefnogi pobl ddifrifol wael yn yr ysbyty. Mae hefyd wedi gweithio mewn canolfannau brechu.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAWE**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

# Gwobr Myfyriwr Nyrsio



## ASTON NICHOLLS

Myfyriwr Nyrsio (Oedolion), Prifysgol De Cymru

Disgrifir Aston fel myfyriwr eithriadol, sy'n mynd yr ail filltir ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Yn benodol, mae wedi codi ymwybyddiaeth ynghylch, a helpu i wella gofal a phrofiad, cleifion o'r gymuned LGBTQ+.

Dechreuodd Aston ei gwrs ym mis Mawrth 2020, yn union fel y cyrhaeddodd y pandemig. Ers hynny, mae wedi bod yn fodel rôl i'w gyd-fyfyrwyr ac eraill y mae wedi cwrdd â nhw ar hyd y ffordd, oherwydd ei bersonoliaeth ddeinamig a bythgofiadwy.

Yn ogystal â gweithio i safonau eithriadol o uchel, mae'n cymryd rhan frwd mewn gweithgareddau allgyrsiol, ac mae'n eiriolwr angerddol dros nyrsio, gan groesawu cyfleoedd i hyrwyddo'r proffesiwn mewn diwrnodau agored prifysgol a digwyddiadau eraill.

Mae'n gynrychiolydd cwrs ac yn gadeirydd y Grŵp Cyswllt Cyrsiau Myfyrwyr a Staff ac mae hefyd wedi rhoi hyfforddiant i staff ar ragenwau dewisol ac wedi datblygu mwy o ddeunyddiau hyfforddi yn ymwneud ag ymwybyddiaeth LGBTQ+, wedi'u hanelu at fyfyrwyr gofal iechyd, staff a ffrindiau Prifysgol De Cymru a thu hwnt.

Dywed ei gydweithwyr fod gan ymroddiad ac ymrwymiad Aston y potensial i newid bywydau a gwella ymarfer ledled Cymru.



## NIA SHEEHAN

Myfyriwr Nyrsio (Iechyd Meddwl), Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Nia wedi dangos balchder eithriadol yn ei gwaith fel myfyriwr nyrsio ac wedi gwneud cyfraniad mawr i drawsnewid cymorth iechyd meddwl yn lleol.

Fel siaradwr Cymraeg rhugl, cydnabu Nia anghenion iechyd meddwl a gofal y boblogaeth cefn gwlad ac mae wedi cyflwyno clinig iechyd yn llwyddiannus, gan ddarparu mynediad at gymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl, corfforol a chymdeithasol.

Mae bod yn fyfyriwr nyrsio drwy COVID-19 wedi golygu llawer o heriau ond mae Nia wedi profi ei hun yn aelod annatod o'r tîm, gan ymgorffori safonau a gwerthoedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda a hefyd dangos gallu clinigol, ymroddiad, gofal a thosturi eithriadol.

Pan darodd y pandemig, bu Nia yn gweithio fel myfyriwr mewn gwasanaeth rheng flaen. Roedd hyn yn arbennig o heriol mor gynnar yn eu hastudiaethau. Mae gan Nia hefyd dri o blant, un ag anghenion cymhleth gyda'r gofyniad i warchod.

Yn ystod ei hyfforddiant cymerodd Nia y rôl arweiniol wrth drefnu Clinig Iechyd Un Stop ar gyfer cleifion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn teimlo'n rhy agored i niwed i fynd at eu meddyg teulu am wiriadau iechyd cyffredinol ond maent yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Mae Nia wedi gweithio'n ddiflino i greu amgylchedd dwyieithog llawn urddas, parch a thosturi lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gweld yn iawn.

NODDIR GAN
**ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU**

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Gwobr Nyrs Gofrestredig (Oedolion)



## ASSUNTA CROTHERS

Assunta Crothers, Arweinydd Tîm/Prif Nyrs, Gofal Critigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



## JUDITH JAMIESON

Uwch Reolwr Nyrsio Datblygu Cleifion Allanol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cynlluniodd a gweithredodd Assunta (Sunny) brosiect sydd wedi gwella llif cleifion a rhyddhau o wasanaethau gofal critigol.

Mae Sunny yn Arweinydd Tîm Band 7 ac yn Gydlynydd Llif mewn Gofal Critigol yn unig Ganolfan Trawma Mawr Cymru, lle mae gan gleifion gyflyrau anadlol, arennol, niwrolegol, niwrolawdriniaethol, yr asgwrn cefn a thrawma lluosog, cardiolegol, fasgwlaidd a chyflyrau llawfeddygol risg uchel eraill.

Oherwydd capasiti cyfyngedig, nid yw rhai cleifion difrifol wael wedi gallu cael mynediad i unedau gofal dwys (ICU). Gweithiodd â chydweithwyr i ddeall y problemau capasiti ar wardiau wrth ryddhau cleifion o ofal critigol a chryfhaodd gysylltiadau â'r adran mynediad cleifion a arweiniodd at ryddhau mwy o gleifion yn gynnar i'r ward yn ystod y dydd fel bod timau meddygol ar gael ar gyfer adolygiadau cleifion.

Mae rhyddhau cleifion ICU mewn modd mwy amserol a phriodol wedi lleihau derbyniadau adlam, wedi gwella llif derbyn cleifion, ac wedi sicrhau bod cleifion yn derbyn therapïau gofal critigol pan fo angen.

Mae'r prosiect bellach yn cynnwys system dangosfwrdd i gadw manylion cleifion, derbyniadau, rhyddhau wedi'i gynllunio a llif drwy'r uned a chaiff ei ddiweddaru mewn amser real.

Mae llwyddiant y prosiect hwn yn ganlyniad i arloesedd, penderfyniad a dycnwch Sunny. Mae wedi arwain at daith well i gleifion, a mwy o fynediad at ofal critigol i'r rheini sydd ei angen fwyaf.

Mae Judith wedi gwneud gwelliant rhagorol i'r gwasanaeth cleifion allanol ym Mhowys drwy ei harloesedd a'i meddwl strategol.

Fel prif nyrs yn yr adran cleifion allanol yn Aberhonddu, mae wedi troi'r hyn a ystyriwyd yn wasanaeth Sinderela yn system fywiog ac effeithlon a fyddai'n drosglwyddadwy ledled Cymru. Mae bob amser yn rhoi cleifion yn gyntaf ac yn sicrhau bod unrhyw anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn ffordd anfeirniadol drwy frysbennu dros y ffôn cyn apwyntiadau. Mae hyn wedi arwain at leihau amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd ac offthalmig.

Mae Judith wedi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng nghefn gwlad drwy weithio gyda byrddau iechyd cyfagos i sicrhau bod cleifion ledled Powys yn gallu cael mynediad at yr un gwasanaeth cleifion allanol. Bu'n allweddol wrth sefydlu gwasanaeth newydd i gleifion a allai fod wedi datblygu dirywiad macwlaidd cysylltiedig ag oedran. Mae'r gwasanaeth yn asesu ac yn rhoi triniaeth yn ystod un ymweliad gyda dilyniant parhaus yn ôl yr angen. Gan ei fod yn lleol mae'n lleihau amseroedd teithio ac aros.

Mae'n cydnabod amrywiaeth bersonol ar draws y boblogaeth ac wedi mynd i'r afael â heriau'r gweithlu drwy gwblhau dadansoddiad sgiliau i gwrdd â galw'r gwasanaeth a recriwtio i ddarparu, cynnal a gwella'r gwasanaeth.

Mae cydweithwyr Judith yn gwerthfawrogi'n fawr ei harddull arwain tosturiol a'i gallu i roi llais i gleifion a staff.

NODDIR GAN
**FWRDD IECHYD ADDYSGU POWYS**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

# Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru



## SARAH MORRIS

Bydwraig Datblygu Ymarfer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Gwnaeth Sarah welliannau trawsnewidiol a chynaliadwy i hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithdrefnau brys aml-broffesiynol.

Fel Bydwraig Datblygu Ymarfer ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, arweiniodd weithrediad llwyddiannus PROMPT (Hyfforddiant Aml-broffesiynol Obstetrig Ymarferol) Cymru, ar draws pob bwrdd iechyd prifysgol.

Cafwyd dros 95% o gydymffurfiaeth â PROMPT yn 2020 a 2021, gydag addasiadau COVID yn ofynnol, a defnyddiwyd cynllun adfer i gynnal lefel cydymffurfiaeth uchel.

Roedd Sarah yn allweddol mewn sicrhau bod tystiolaeth o ddigwyddiadau ac adolygiadau llywodraethu yn cael ei thriongli a'i defnyddio i ddarparu cyfleoedd dysgu yn rhaglenni PROMPT. Nododd welliannau ymarferol i systemau mewn amgylcheddau clinigol, megis siartiau fflip ar waliau yn dangos algorithmau.

Adolygodd dystiolaeth yn ymwneud â chanfod dystocia ysgwydd a dangosodd sut mae hyfforddiant cadarn a chraffu ar ddata yn arwain at well gwasanaethau i fenywod, pobl feichiog a phobl sy'n geni, a'u teuluoedd.

Trwy gyd-ddatblygu PROMPT Cymru drwy gyflwyniadau lleol, mae'r offer a gludir gan fydwragedd cymunedol wedi'i safoni. Mae cydweithrediad tîm Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi gwella drwy ddiwrnodau astudio, gyda pharafeddygon yn bresennol a chyfadran cwrs parafeddygon.

Mae Sarah yn angerddol am ansawdd, diogelwch, a phrofiad y claf a bydd yn nodi bylchau a chynnig syniadau newydd yn rheolaidd. Galluogodd ei gwaith trawsnewidiol fwy o gyfleoedd craffu, cydymffurfiaeth a datblygu staff.



## DR AUGUSTA STAFFORD-UMUGHELE

Rheolwr Diwylliant, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Helpodd Augusta Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddeall a dysgu mwy am y materion a wynebir gan staff o'r mwyafrif byd-eang. Mae ei gwaith ar gyfnod secondiad yn y tîm datblygu sefydliadol wedi dyfnhau ymwybyddiaeth o faterion diwylliannol, amrywiaeth a chynhwysiant, ac wedi meithrin mwy o ymddiriedaeth ymhlith staff o'r mwyafrif byd-eang.

Cynhaliodd ymarferion gwrando gyda staff nyrsio, nad oedd rhai ohonynt erioed wedi dod ymlaen i siarad am y pwnc o'r blaen, a dylanwadodd ar newidiadau i'r gefnogaeth ar gyfer llwybrau datblygu nyrsys. Roedd hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfweliadau a chydnabod pwysigrwydd materion cymunedol a diwylliannol, yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar staff nyrsio Ffilipinaidd.

Mae gwaith Augusta wedi helpu i ddatblygu perthynas llawn ymddiriedaeth gyda staff nyrsio o'r mwyafrif byd-eang, sy'n golygu y gellir dysgu mwy a gellir gwneud newidiadau i'r diwylliant gwaith drwy ystyried yn agored ragfarn ymwybodol ac anymwybodol. Mae ei sgiliau rhwydweithio a dylanwadu wedi arwain at nifer sylweddol o staff nyrsio yn ymuno â Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan roi llais cyfunol mwy pwerus.

Mae gan Augusta y dewrder i ddweud y gwir er mwyn creu newid. Mae ei harddull unigryw wedi perswadio'r rheini mewn awdurdod i barchu ei bwriadau, gan arwain at welliannau systematig a gwell diwylliant o amrywiaeth a chynhwysiant.

NODDIR GAN
**BRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU, LLYWODRAETH CYMRU**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwobr Arloesedd a Digideiddio ym maes Nyrsio



## CATHERINE CAWTE

Arweinydd Tîm Imiwneiddio ar gyfer Brechiadau mewn Ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



## MANDIE WELCH

Uwch Ymarferydd Nyrsio Arweiniol Methiant y Galon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yn gyflym datblygodd Cath ffordd newydd o gael cydsyniad yn ddigidol gan rieni a gwarcheidwaid ar gyfer brechiadau.

Yn ystod gwanwyn 2021 fe wnaeth Llywodraeth Cymru fandadu rhaglen imiwneiddio Fluenz i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc, sy'n golygu cynnydd yn y cynnig o 40,000 i 68,000 o blant rhwng pump ac 16 oed, ar draws 188 o ysgolion.

Fel y cydlynydd imiwneiddio ar gyfer gwasanaethau nyrsio sgiliau cymysg mewn ysgolion, cynhaliodd Cath waith cydweithredol uniongyrchol gyda'r arweinydd digidol a'r gyfarwyddiaeth iechyd plant, gan adolygu'r broses bresennol i gynllunio opsiwn mewnol i'w ddefnyddio o fewn chwe wythnos.

Eu nod oedd canfod datrysiad digidol i gasglu caniatâd a galluogi'r tîm nyrsio ysgol i ychwanegu gwybodaeth. Roedd angen casglu data ar adeg y brechu, ac roedd angen i'r datrysiad fod yn gydnaws â systemau eraill.

Cynlluniwyd ffurflenni Microsoft i atgynhyrchu templed caniatâd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chafodd data ymateb ei gasglu a'i arddangos ar gyfer staff. Roedd defnydd y data gyda System Imiwneiddio Cymru yn caniatáu i wybodaeth amser real gael ei chofnodi yng nghofnod y plentyn.

Dangosodd Cath arweinyddiaeth gynhwysol drwy roi sicrwydd a hyfforddiant un-i-un. Sefydlodd gyfarfodydd wythnosol lle trafodwyd pryderon a rhannwyd syniadau. Roedd y panel yn teimlo bod Cath yn angerddol am wasanaethau digidol symlach gan alluogi darpariaeth gyda chysyniad, a chyrraedd mwy o blant mewn modd cost-effeithiol.

Fe wnaeth Mandie wella'r gwasanaeth a roddir i gleifion methiant y galon, gan alluogi parhad gofal sy'n integreiddio monitro iechyd yn ddiogel ochr yn ochr â therapïau methiant y galon sydd wedi'u hoptimeiddio'n ddiogel.

Gweithiodd gyda Therapiwteg HUMA, cyd-nyrs methiant y galon a dau gardiolegydd i ddatblygu rhaglen feddalwedd.

Arweiniodd eu cydweithrediad at feddalwedd a oedd yn casglu data oedd yn cynnwys symptomau, pwysedd gwaed, pwysau, cyfradd curiad y galon a dirlawnder ocsigen. Gallai clinigwyr adolygu'r data i'w helpu i wneud penderfyniadau cyflym am ofal cleifion a nodi arwyddion cynnar o ddirywiad. Datgelodd astudiaeth beilot sut y gallai'r ymyriad hefyd leihau amser optimeiddio meddyginiaeth a gwella profiad y claf.

Arweiniodd y gwasanaeth newydd at osgoi derbyniadau i'r ysbyty a galluogi rhyddhau cynnar i gleifion y gellid eu monitro'n ddiogel yn eu cartref. Roedd yn helpu clinigwyr i ddod o hyd i gleifion sydd angen profion ychwanegol neu driniaeth gynharach.

Rheolodd Mandie grŵp astudio lle cyflawnwyd optimeiddiad therapïau methiant y galon mewn 28 diwrnod ar gyfartaledd, gostyngiad gan 75% mewn amser optimeiddio o gymhau â gofal safonol. Cytunodd cleifion fod y feddalwedd yn gwella cyfathrebu, yn helpu i reoli eu cyflwr, ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Llwyddodd Mandie i lywio'r gwaith o weithredu newid, ac ymyriad newydd, gyda chanlyniadau cadarnhaol i gleifion methiant y galon. Mae ei harloesedd wedi'i rannu'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

NODDIR GAN
**FRONTIER MEDICAL GROUP**

# Gwobr Cefnogi Gwelliant drwy Ymchwil




## YR ATHRO JUDITH CARRIER

Athro Nyrsio, Cyd-Ddirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd





## DR PAUL GILL

Uwch Ddarlithydd, Nyrsio Oedolion, Prifysgol Caerdydd


Mae Judith yn angerddol dros ymchwil a chyfuno tystiolaeth, a thrwy gydol ei gyrfa mae'n gyson wedi mynd y tu hwnt i'w rôl er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar wybodaeth nyrsio a gwella gofal cleifion.

Yn nyrs ers 1984, mae gyrfa Judith wedi rhychwantu meysydd gofal critigol a nyrsio practis (PN). Yn 2001, symudodd i'r byd academaidd a datblygu rhaglen ar gyfer hyfforddiant PN yng Ngwent, gan arwain rhaglenni BSc Cymunedol yng Nghaerdydd ac Oman a dod yn Bennaeth Proffesiynol Gofal Sylfaenol/Nyrsio Cymunedol a Chyfarwyddwr darpariaeth ôl-radd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ers hynny, mae wedi ehangu ei heffaith drwy ymchwil, ar ôl arwain a chydweithio ar astudiaethau cenedlaethol a rhyngwladol fel prif ymchwilydd neu gyd-ymchwilydd, gyda chyllid gwerth £796,370.

Judith oedd Cyfarwyddwr Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru (WCEBC) o 2010-2021, ac mae effaith gwaith y Ganolfan yn y cyfnod hwnnw wedi bod yn eang, ac wedi bwydo i mewn i bolisi Llywodraeth Cymru.

Mae ei hymchwil hefyd wedi arwain at welliannau mewn gofal cleifion ymhellach i ffwrdd, ar ôl arwain prosiectau gyda sefydliadau yn Zambia a Malawi.

Mae Judith wedi rhannu ei gwybodaeth am gyfuno a rhoi tystiolaeth ar waith drwy addysgu cannoedd o fyfyrwyr a staff mentora. Mae hefyd wedi trosglwyddo ei dealltwriaeth o ymchwil sylfaenol drwy oruchwylio gwaith PhD, sydd wedi arwain at welliant pellach yn y gwasanaeth.

Mae Paul yn ymchwilydd ymrwymedig ac ymroddedig a'i nod drwy gydol ei yrfa fu gwella canlyniadau i gleifion.

Yn Uwch Ddarlithydd mewn Nyrsio Oedolion gyda chefndir clinigol mewn nyrsio gofal critigol, mae ei waith yn dangos ei ymrwymiad i wneud gwahaniaeth mewn cyflyrau cronig, gan roi safbwyntiau cleifion a theuluoedd yn flaenllaw.

Tynnodd y panel sylw at gyfraniad sylweddol Paul fel arweinydd nyrsio ym maes ymchwil ac ymarfer clinigol, yn enwedig i'r bobl hynny y mae trawsblaniad arennol ar eu cyfer wedi methu. Mae ei waith hynod arloesol ar effaith cetamin ar iechyd y bledren hefyd i'w ganmol ac felly hefyd ei waith ymchwil arfaethedig i COVID hir.


Mae Paul yn addysgu myfyrwyr gradd, ôl-radd a doethuriaeth ac mae'n gyd-arweinydd y Grŵp Gweithredol ar gyfer Cydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC), cydweithrediad Cymru gyfan i gynyddu capasiti a gallu ymchwil mewn ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a grwpiau proffesiynol perthynol i iechyd.

Yn fentor a goruchwyliwr ymchwil profiadol, mae Paul wedi meithrin ymchwilwyr ar bob cam ac wedi hwyluso'r rheini sy'n dilyn llwybr gyrfa ym maes ymchwil.

Mae ei angerdd a'i ymrwymiad i wneud gwahaniaeth drwy ymchwil yn parhau i drawsnewid bywydau cleifion, gweithwyr proffesiynol, myfyrwyr, polisi, a chymdeithas.


NODDIR GAN
**BRIFYSGOL CAERDYDD**

# Gwobr Gofal am Unigolion Hŷn



## SAMANTHA NOORADEEN

Clinigydd Arweiniol,
Cartref Gofal Anwen,
Grŵp Caron



## AMANDA WHENT

Nyrs Arweiniol Dementia,
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Mae Samantha (Sam) wedi dangos llawer o aeddfedrwydd a phroffesiynoldeb yn ei rôl fel nyrs arweiniol yng Nghartref Gofal Anwen, gan gynllunio a gweithredu gofal diwedd oes mewn modd sensitif a gydag urddas.

Dibynnwyd ar ei sgiliau trefnu a goruchwylio i gynnal y cydbwysedd cywir o fewn y tîm, sy'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r cartref gofal.

Gan geisio gwella ei sgiliau fel mater o drefn drwy brofiad ymarferol ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, roedd Sam yn aml yn rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'i chymheiriaid a chydweithwyr. Helpodd hyn i hybu eu perfformiad eu hunain a'u cysylltiad â phreswylwyr.

Cymerodd amser i wrando a deall anghenion a theimladau unigol, gan greu lles gwell. O ganlyniad, mae hi wedi dod yn uchel ei pharch fel model rôl ar gyfer gweithwyr newydd, myfyrwyr nyrsio a chymheiriaid.

Ysgogwyd Sam gan feysydd heriol ei rôl, yn amrywio o ddogfennu cywir i ddarparu gofal personol a oedd yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus, ac yn gallu cael hwyl. Roedd ei harddull o reoli sefyllfaoedd sensitif yn ymwneud â gofal diwedd oes yn eithriadol, ac roedd ei ffordd o gyfathrebu yn gwneud i deuluoedd deimlo'n ddiogel o wybod y byddai eu hanwyliaid yn cael diwedd cyfforddus ac urddasol i'w bywyd.

Dangosodd Amanda ymrwymiad rhagorol i godi proffil y person hŷn, yn enwedig y rheini sy'n byw gyda dementia. Mae ei rhinweddau arweinyddiaeth eithriadol wedi trosi'n ddylanwad mawr ar lefelau strategol, clinigol a chymunedol.

Arweiniodd werthusiad ffurfiol mewn ysbyty cymunedol i benderfynu a allai gweithgareddau ystyrlon, megis cyflwyno cydymaith dementia gwirfoddol a gwell hyfforddiant i staff ddarparu ysgogiad, lleihau diflastod ac ymddygiad heriol, a hybu hyder staff. Ffurfiodd weithgor amlddisgyblaethol a chroesawodd ymweliad arsylwi gan y cyngor iechyd cymuned.

Arweiniodd canlyniad y gwerthusiad at gamau gwella, gan gynnwys cyllid newydd ar gyfer gweithgareddau a hyfforddiant penodol. Helpodd Amanda i recriwtio a hyfforddi dros 100 o hyrwyddwyr dementia, a datblygodd rôl cymdeithion dementia gwirfoddol ar draws wardiau ysbytai a chartrefi gofal.

Helpodd i gaffael dros 1,000 o fyrddau gwybodaeth erchwyn gwely newydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol a oedd yn galluogi staff i adnabod pan fydd gan glaf anghenion gofal ychwanegol ac yn caniatáu i berthnasau adael sylwadau. Gwnaeth hefyd gefnogi datblygiad straeon cleifion digidol, sydd wedi cael eu rhannu mewn digwyddiadau dysgu.

Galluogodd Amanda newid diwylliannol mewn gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws y bwrdd iechyd. Mae ei gwaith wedi cofleidio'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dementia ac mae'n esiampl i Gymru.

NODDIR GAN
**BRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Gwobr Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2023

Gwobr Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru yw'r clod pennaf yn y seremoni heno. Mae'r wobr yn cydnabod rhagoriaeth mewn ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth ragorol. Bydd yr enillydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i wella gofal cleifion yng Nghymru ac wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu arloesedd ym maes nyrsio. Trwy ei chyflawniadau/gyflawniadau, bydd yr enillydd wedi chwarae rhan sylweddol mewn gwella enw da'r proffesiwn nyrsio.

**Meini Prawf ar gyfer y Wobr:**

- Mae'n rhaid i Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru fod wedi dangos rhagoriaeth yn ei maes/faes.
- Bernir bod ei chyfraniad/gyfraniad i'r gymuned nyrsio a gofal iechyd y wlad yn arwyddocaol.
- Rhaid i'r enillydd fod yn fodel rôl ysbrydoledig ar gyfer y gymuned nyrsio a gofal iechyd.

NODDIR GAN
YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Velindre University NHS Trust

**Cyhoeddir Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2023 yn y seremoni wobrwyo.**

## ENILLWYR GWOBR NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU

**ENILLYDD 2012: LOUISE POLEY** Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Camddefnydd Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**ENILLYDD 2013: RUTH OWENS**
Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**ENILLYDD 2014: VERONICA JARMAN** Prif Nyrs Ysbyty Dydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
**ENILLYDD 2015: CLAIRE HARRIS**
Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
**ENILLYDD 2016: SIAN THOMAS** Nyrs Ymgynghorol (Iechyd Plant), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
**ENILLYDD 2017: LOUISE WALBY**
Hwylusydd Nyrsio Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
**ENILLYDD 2018 EVE LIGHTFOOT**
Nyrs Atal Heintiau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
**ENILLYDD 2019: JEAN SAUNDERS MBE**
Nyrs Arweiniol Ceiswyr Lloches, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



**ENILLYDD 2021: KIRSTY JOHN** Prif Nyrs, Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

*"Mae derbyn Gwobr Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2021 wedi bod yn gyfle gwych i dynnu sylw at nyrsio mewn carchardai. Yn aml gall nyrsio mewn carchardai gael ei guddio y tu ôl i'r muriau ac mae wedi bod yn wych gallu tynnu sylw at yr holl waith rhagorol sy'n digwydd mewn amgylchedd diogel gan weithio gyda rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas."*



## CROESEWIR POB RHODD

Os hoffech gyfrannu, sganiwch y cod QR neu ewch i https://checkout.justgiving.com/c/3157991 a fydd yn mynd â chi i dudalen Just Giving Donation ar gyfer Ysgoloriaeth Nyrsio Gofal yr Henoed Hettie C Hopkins, Cymru.

**Rhif elusen gofrestredig 509911**

# YSGOLORIAETH NYRSIO GOFAL YR HENOED HETTIE C HOPKINS, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Gofal yr Henoed Hettie C Hopkins yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru i ddilyn prosiect/cwrs ym maes gofal yr henoed.

Enwir yr Ysgoloriaeth ar ôl un o sylfaenwyr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Hettie Hopkins (1919-2012). Roedd Hettie yn nyrs a helpodd i sefydlu Bwrdd RCN Cymru.

Mae'r Ysgoloriaeth yn agored i nyrsys cofrestredig sy'n gweithio gyda'r henoed yng Nghymru ac sy'n dymuno dilyn prosiect neu gwrs sy'n gysylltiedig â'u gofal.

**Mae nyrsio yn yrfa sy'n gofyn am ddysgu a datblygu gydol oes. Gall ysgoloriaeth helpu i gefnogi hyn a derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion.**

SGANIWCH YMA I ROI.
DIOLCH!



## CROESEWIR POB RHODD

Os hoffech gyfrannu, sganiwch y cod QR neu ewch i https://checkout.justgiving.com/c/3295813 a fydd yn mynd â chi i dudalen Just Giving Donation ar gyfer Ysgoloriaeth Nyrsio Alun Islwyn Giles, Cymru.

**Rhif elusen gofrestredig 702403**

# YSGOLORIAETH NYRSIO ALUN ISLWYN GILES, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Alun Islwyn Giles yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru i hybu gwyddor a chelfyddyd nyrsio.

Fe'i lansiwyd ym 1989 i anrhydeddu Alun a'r cyfraniad eithriadol a wnaeth i'r proffesiwn nyrsio. Gwasanaethodd Alun fel Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru am ddau dymor o bedair blynedd rhwng 1981–1989.

Roedd hefyd yn aelod o Gyngor yr RCN gan ddod yn Gadeirydd Cyngor yr RCN yn ddiweddarach.

Mae'r Ysgoloriaeth yn agored i nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yng Nghymru.

**Mae nyrsio yn yrfa sy'n gofyn am ddysgu a datblygu gydol oes. Gall ysgoloriaeth helpu i gefnogi hyn a derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion.**


SGANIWCH YMA I ROI.
DIOLCH!

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

**Ni yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.**

**Rydym yn arolygu gwasanaethau GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i amlygu meysydd sydd angen eu gwella.**





## EIN BLAENORIAETHAU

- **Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt**
- **Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg**
- **Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd**
- **Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.**